CYNGOR TREF RHAEADR GWY
RHAYADER TOWN COUNCIL

# POLISI A GWEITHDREFNAU IAITH GYMRAEG CYNGOR TREF RHAEADR GWY

**Cyflwyniad a Chwmpas**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gofleidio a hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymreig

Mae’r Cyngor yn cydnabod y gall aelodau’r cyhoedd fynegi eu barn a’u hanghenion yn well yn eu dewis iaith a bod eu galluogi i ddefnyddio eu dewis iaith yn fater o arfer da yn hytrach na chonsesiwn ac y gallai gwadu’r hawl honno roi aelodau’r cyhoedd dan anfantais.

Bydd y Cyngor felly yn cynnig yr hawl i’r cyhoedd ddewis pa iaith i’w defnyddio wrth ddelio â’r Cyngor.

**Polisi**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gynnal busnes cyhoeddus, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Wrth gyflawni amcanion y Polisi hwn, bydd y Cyngor yn:

- Trin y Gymraeg yn gyfartal â’r Saesneg
- Croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu’r Saesneg
- Croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg neu’r Saesneg
- Croesawu cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn y Gymraeg neu’r Saesneg

Dros amser, bydd y Cyngor yn cymryd camau pellach i ddod yn fwy dwyieithog.

Ar hyn o bryd, nid yw'r Clerc yn ddwyieithog ac felly bydd angen cefnogaeth y Cynghorydd Cymraeg ei iaith er mwyn cyflawni'r gweithdrefnau canlynol

**Gweithdrefnau**

- Ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo’i hun yn arwain at unrhyw oedi afresymol
- Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael ei hateb yn y Gymraeg ar ôl ei chyfieithu
- Bydd galwadau ffôn a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu hateb yn y Gymraeg lle bo modd. Os nad yw’r person sy’n cymryd yr alwad yn gallu siarad Cymraeg, bydd yn egluro’r sefyllfa’n gwrtais ac yn trefnu i siaradwr Cymraeg ddychwelyd yr alwad ar amser y cytunwyd arno.
- Lle bo angen, bydd dogfennau a gyhoeddir yn y Saesneg ar gael yn y Gymraeg ar gais.
- Cyhoeddir hysbysiadau cyhoeddus ar gyfer etholiadau yn y Gymraeg ac yn y Saesneg

**Adolygu’r polisi**

Bydd y Polisi hwn yn cael ei fonitro a’i adolygu’n rheolaidd:

- Yn unol â newidiadau mewn deddfwriaeth neu unrhyw newidiadau a wneir gan y Cyngor
- Yn dilyn unrhyw faterion neu bryderon a godwyd gyda'r Cyngor
- Ym mhob amgylchiad arall, yn flynyddol

Adolygiad diwethaf Awst 2025